

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
9 Tachwedd 2022
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, S Jones, H N Evans, C Thomas, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng H N Evans (grant y Cymdeithas); C Thomas, S Jones, H N Evans (rhodd Cylch Meithrin); C Thomas, R G Parry, E Law Shui Nicholson, S Jones, H N Evans (rhodd yr Iorwerth)
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.10.22 gydag 1 cywiriad: Roedd y Cyng D Fowlie (Cyngor Sir) yn bresennol yn y cyfarfod- Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Mae R G Hire wedi hysbysu'r Clerc y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y dyddiau nesaf
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – Bydd y Clerc yn gofyn a yw'r Gymdeithas bellach yn derbyn ceisiadau. Bydd hefyd yn ystyried cais i Comic Relief yn y rownd nesaf.
4.3	Tap mynwent Salem - Nid yw'r Clerc wedi clywed dim pellach gan y plymiwr er ei fod wedi anfon neges ato. Dywedodd y Cyng S Jones y byddai'n anfon ei rif ffôn ymlaen at y Clerc
4.4	Parcio Stryd Fawr - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda
4.5	Y Fynwent - Mae'r Clerc wedi trefnu i gyfarfod y Cadeirydd yn y fynwent yfory i gofnodi pa plotiau sydd wedi eu prynu ymlaen llaw.
4.6	Hysbysffwrdd - Mae'r Clerc wedi archebu hysbysffwrdd newydd a bydd yn trefnu i gontractwr ei osod yn ei le.
Llofnod.....Cadeirydd 11.01.23	

4.7	Adolygiad blynyddol o gyflog y Clerc - Cytunwyd i godi cyflog y Clerc i'r lefel genedlaethol (gan ddechrau ar bwynt graddfa 18) 9 awr yr wythnos o 01.04.23. Mae hyn yn unol â Chynghorau Cymuned eraill.
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bydd Sul y Cofio ar 13 Tachwedd. Cadarnhaodd y Clerc fod y trefniadau angenrheidiol wedi eu gwneud. Diolchodd hefyd i'r Cyng G Parry a Mr Robin Parry am dorri'r gwair a'r cloddiau yn y rhan o'r fynwent nad oedd yn cael ei defnyddio. Diolchodd hefyd i bawb am gydweithio'n dda dros y flwyddyn
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
6.1	FPL/2022/273 Cais llawn ar gyfer codi annedd gyda garej ynghlwm yn Ty Hen ,Lon Ty Hen, Bryngwran – dim sylwadau
6.2	HHP/2022/296 Cais llawn ar gyfer dymchwel y garej presennol a codi garej newydd yn ei le yn 22 Tyn Berllan, Bryngwran, Caergybi – dim sylwadau
	Priffyrdd
6.3	Gorchymyn traffig Arfaethedig A5 Bryngwran: Dim aros ar unrhyw adeg: A5 Stryd Fawr, Yr Ochr Ogleddol - O bwynt 25 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd â Lôn Ffarm am bellter o 134 metr i gyfeiriad y de ddwyrain. Ochr Ddeheuol a) O bwynt 21 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Salem am bellter o 17 metr i gyfeiriad y de ddwyrain. b) O bwynt 35 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd â Lôn Ffarm am bellter o 44 metr i gyfeiriad y de ddwyrain. Mae'r Cyngor yn derbyn y cynnig.
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1 a	Digwyddiad yn yr Iorwerth 28.11.22: Medrwn Môn – Cynghrair Cymunedol ar gyfer Ward Crigyll. Mae Medrwn Môn wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned yr Ynys I greu map asedau o bob ward. Cynhelir cyfarfod ar 28.11.22 yn Iorwerth, Bryngwran I drafod ward Crigyll.
	Llofnod.....Cadeirydd 11.01.23

7.3	Tywyn Trewan - Mae Gwarchodwyr y Bwrdd, sy'n gyfrifol am Gomin Tywyn Trewan, yn awyddus i wybod sut yr hoffai Porwyr Awdurdodedig a'r cymunedau cyfagos i'r comin gael ei reoli yn y dyfodol er budd pobl leol. Roedd gan y Cyngor Cymuned gynrychiolydd ar Fwrdd Rheoli Tywyn Trewan. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â nhw i ofyn a allai ailddechrau.
8	MATERION ERAILL
8.1	Amser cychwyn ar gyfer cyfarfodydd misol - cytunwyd y bydd y Cyngor yn cyfarfod am 7pm o Ionawr 2023.
8.2	Cysgodfan Bws Engedi - mae'r Clerc yn disgwyl am brisiau
8.3	Cynllun Hyfforddi - Derbyniodd yr aelodau y cynllun hyfforddi a baratowyd gan y Clerc.
9	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rhoddion Nadolig: £100 yr un i Blas Crigyll, Canolfan Dydd Plas Crigyll, Cylch Meithrin, Ysgol Bryngwran ac yr Iorwerth.
9.2	Hysbysffwrdd £824.98
9.3	Rhys Williams £1693.00 (torri gwair)
9.4	Costau y Cadeirydd hefyd rhodd £50 I Eglwys Bryngwran
9.5	Costau y Clerc £121.25
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
	Dim
	Llofnod.....Cadeirydd 11.01.23